# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 7 – Y Rheol Gyffredinol Yn Erbyn Osgoi Trethi

### *Adran 66 - Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi*

### Adran 81F DCRhT - Hysbysiad gwrthweithio arfaethedig

96. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ACC ddyroddi hysbysiad gwrthweithio arfaethedig i hysbysu trethdalwr pan fydd yn bwriadu gwrthweithio mantais drethiannol sydd wedi deillio o drefniant artiffisial i osgoi trethi mewn perthynas â threth ddatganoledig.

97. Pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad gwrthweithio, rhaid iddo:

- pennu'r trefniant osgoi trethi a'r fantais drethiannol;
- esbonio pam fod ACC o'r farn fod y trethdalwr wedi cael mantais drethiannol sy'n deillio o drefniant artiffisial i osgoi trethi;
- nodi'r addasiad y mae ACC yn bwriadu ei wneud i wrthweithio'r fantais drethiannol; a
- pennu unrhyw swm y bydd yn ofynnol i'r trethdalwr ei dalu.

98. Rhaid i'r hysbysiad gwrthweithio arfaethedig hefyd hysbysu'r trethdalwr y bydd hysbysiad gwrthweithio terfynol (adran 81G) yn cael ei ddyroddi ar ôl diwedd y cyfnod o 45 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad dyroddi'r hysbysiad gwrthweithio arfaethedig. Rhaid iddo hefyd ddatgan y caiff y trethdalwr ofyn i ymestyn y cyfnod 45 o ddiwrnodau hwnnw, ac y caiff gyflwyno sylwadau i ACC cyn y dyroddir yr hysbysiad gwrthweithio terfynol.